# ADRODDIAD TERFYNOL AR AROLWG FFINIAU CYMUNEDOL ADRAN 25 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU 2013 GAN GYNGOR GWYNEDD

## 1. Rhagymadrodd

Mae Cyngor Gwynedd ('y Cyngor') wedi cwblhau ei arolwg ffiniau cymunedol o dan adran 25 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru etc. 2013 ("y Ddeddf").

Ar 2 Hydref 2025 cymeradwyodd y Cyngor Llawn Argymhellion Terfynol o dan adran 25 y Ddeddf a chyflwynir yr argymhellion, drwy'r adroddiad hwn, i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel yr awdurdod gweithredu priodol yn unol ag adran 36 y Ddeddf.

## 2. Yr Argymhellion Terfynol

Mae'r Argymhellion Terfynol a gymeradwywyd fel a ganlyn:

**Cymunedau Y Felinheli a Pentir**

Newid rhan o'r ffin rhwng Cymunedau Y Felinheli a Pentir. Y newid yn sierhau fod trigolion Ffordd Heulyn i gyd yn pleidleisio yn Y Felinheli. Ar hyn o bryd, mae rhan o'r stryd yn pleidleisio yn Penrhosgarnedd.

**Cymunedau Llanegryn a Tywyn**

Newid rhan o'r ffin rhwng Cymuned Llanegryn a Cymuned Tywyn fel bod tir sydd yn berchen i Fferm Rhyd y Garnedd i gyd yn rhan o Gymuned Llanegryn

**Cymunedau Llanllechid a Bethesda**

Newid rhan o'r ffin i gynnwys, o fewn cymuned Bethesda (ward Rachub), y tai presennol yn ystadau Llwyn Bedw, Cae Rhosydd ynghyd a safle 127 yng Nghofrestr Safleoedd Posib, Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039.

**Gwelir y mapiau yn dangos yr Argymhellion hyn yn Atodiad 1**

## 3. Y Broses

### Cymeradwyo cynnal Arolwg a'r Cylch Gorchwyl (07/03/24)

Cymeradwywyd cynnal Arolwg a'r Cylch Gorchwyl ar ei gyfer gan y Cyngor Llawn ar 07/03/24. Roedd yr awdurdod yn flaenorol wedi ysgrifennu at bob cyngor cymuned i ofyn os oedd unrhyw faterion yr hoffent eu dwyn i'n sylw mewn perthynas â'u ffiniau presennol. Seiliwyd yr argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd mewn ymateb i hyn ynghyd a gwybodaeth oedd eisoes ym meddiant swyddogion. Cymeradwywyd cynnal arolwg o ffiniau cymunedau penodol lle amlygwyd rheswm posib dros newid, yn benodol materion yn ymwneud a'r cymunedau canlynol:

- Y Felinheli a Pentir– addasu rhan o'r ffin
- Llanllechid Bethesda- addasu rhan o'r ffin
- Llanegryn a Thywyn - addasu rhan o'r ffin.
- Llanelltyd a Ganllwyd - uno'r ddau gyngor gan greu un cyngor yn Nyffryn y Mawddach

Gellir gweld yr adroddiad llawn aeth i'r Cyngor a chofnod o'r penderfyniad ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r ddolen ganlynol (gweler Eitem 16):

Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 7fed Mawrth, 2024, 1.30 y.h.

### Cyhoeddusrwydd Cychwynnol ac Ymgynghoriad ar y Cylch Gorchwyl (11/11/24 – 20/12/24)

Yn dilyn rhoi'r cyhoeddusrwydd gofynnol o dan y Ddeddf ni chyflwynwyd unrhyw fater ychwanegol i sylw'r awdurdod mewn perthynas â Chylch Gorchwyl yr Arolwg Ffiniau. Atodir crynodeb o'r ymateb a dderbyniwyd fel **Atodiad 2** (noder fod yr ymatebion yn cynnwys ymatebion i adolygiad o drefniadau etholiadol dan adran 31 a gynhaliwyd ar yr un pryd ac sydd ddim yn destun yr adroddiad hwn).

### Cymeradwyo Cynigion Drafft (06/03/25)

Yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion cymeradwyodd y Cyngor Llawn y canlynol fel Cynigion Drafft:

- Y Felinheli a Pentir - Trosglwyddo eiddo sydd ar hyd Ffordd Heulyn ac o fewn pentref y Felinheli o gymuned Pentir i gymuned y Felinheli

- Llanllechid Bethesda - Trosglwyddo y rhan hynny ystâd tai Llwyn Bedw sydd yng nghymuned Llanllechid i gymuned Bethesda fel bod y stad gyfan yng nghymuned Bethesda.

- Llanegryn a Thywyn - Trosglwyddo tir o fferm Rhydygarnedd o gymuned Tywyn i gymuned Llanegryn fel bod yr holl eiddo o fewn cymuned Llanegryn

- Llanelltyd a Ganllwyd - Cyfuno cymunedau Llanelltyd a Ganllwyd i sefydlu cymuned newydd.

Gellir gweld yr adroddiad llawn aeth i'r Cyngor a chofnod o'r penderfyniad ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r ddolen ganlynol (gweler Eitem 12)

Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 6ed Mawrth, 2025, 1.30 y.h.

## Ymgynghoriad ar y Cynigion Drafft (28/03/25 – 23/05/25)

Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Drafft yn unol â gofynion y Ddeddf a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gellir cyflwyno cynrychioliadau i'r awdurdod yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Fe'i anfonwyd at yr ymgyngoreion a ragnodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys pawb a ymatebodd ar y cam rhagarweiniol. Yn ogystal â'r ymgyngoreon gorfodol anfonwyd at y canlynol:

- Y Cynghorau Cymuned
- Y Cynghorwyr Sir
- Aelodau o'r Senedd
- Aelodau Seneddol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o wyth wythnos rhwng 28/05/25 a 23/05/25

Ysgrifennwyd at y cynghorau cymuned ac aelodau Cyngor Gwynedd drachefn yn ystod y cyfnod ymgynghori i'w hatgoffa o'r dyddiad cau, gan egluro wrth y cynghorau cymuned y

gallent gysylltu pe bai amseriad eu cyfarfodydd yn ei gwneud yn anodd i ymateb erbyn y dyddiad cau.

**Ymatebion**

Derbyniwyd sylwadau mewn ymateb i ddau o'r cynigion drafft:

**Llanllechid a Bethesda**
Cynnig addasiad i linell y ffîn yn y Cynnig Drafft i gynnwys mwy o dir (crynodeb o'r ymateb yn **Atodiad 3)**

**Llanelltyd a Ganllwyd**
Yn dilyn gohebiaeth bellach gyda'r cynghorau cymuned daeth i'r amlwg nad oedd bellach ddymuniad i uno'r cymunedau. Nododd Cyngor Cymuned Ganllwyd yn benodol ei fod yn gwrthwynebu'n gryf.

## Cyngor Llawn yn Cymeradwyo'r Cynigion Terfynol (02/10/25)

Ystyriodd y Cyngor yr ymatebion uchod a chymeradwyo'r Argymhellion Terfynol fel nodir ym mharagraff 2 uchod, i'w cyflwyno i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol Cymru

Gellir gweld yr adroddiad llawn aeth i'r Cyngor a chofnod o'r penderfyniad ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r ddolen ganlynol (gweler Eitem 12)

Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 2ail Hydref, 2025, 1.30 y.h.

## Cyhoeddi'r Adroddiad

Yn unol a gofynion adran 36 y Ddeddf bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn electroneg a bydd ar gael i'w archwilio (yn ddi-dâl) yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL551SH am gyfnod o 6 wythnos. Anfonir copi adroddiad at yr ymgyngoreion gorfodol, yr Arolwg Ordnans ac at Weinidogion Cymru. Hysbysir unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth neu a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd o dan adran 35 sut i gael copi o'r adroddiad.

**Dyddiedig 1 Ebrill 2026**